pp Ionawr 24.qxp_Layout 1 08/01/2024 5:07 pm Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Ionawr 2024 Rhif 495



Cylch Meithrin Tal-y-bont – tud 6

## Blwyddyn Newydd Dda i'n Holl Ddarllenwyr

# Croeso'n ôl, Dafydd!

Dros y misoedd diwethaf mae Papur Pawb wedi bod yn dilyn hynt a helynt Dafydd Hughes, Tal-y-bont, y morwr mentrus a fu'n hwylio o amgylch y byd ar ei ben ei hun, yn ei gwch 'Bendigedig'. Ganol mis Rhagfyr fe ddaeth y newyddion ei fod yn rhoi'r gorau i'w ymdrechion oherwydd problemau technegol difrifol a allai fygwth bywyd.

Bron i dair blynedd yn ôl, penderfynodd Dafydd gofrestru ar gyfer y Global Solo Challenge (GSC) oedd yn golygu y byddai'n hwylio dros 26,000 o filltiroedd morol o amgylch y byd, heb stopio. Aeth ati i adnewyddu cwch a fu'n segur am ugain mlynedd mewn gweithdy gan ailweirio, plymio a gosod mastiau a dec newydd ei hun. Sialens arall cyn cychwyn teithio oedd sicrhau bod ganddo ddigon o fwyd ar gyfer y daith gan fod rheolau'r GSC yn atal y morwyr rhag stopio mewn unrhyw borthladd. Aeth â digon o duniau bwyd gydag e yn ogystal â chacennau a fflapjacs a roddwyd iddo cyn gadael gan bobl a oedd yn awyddus i'w helpu.



Gadawodd Dafydd ogledd Sbaen ar 26 Awst ond ar ôl treulio ychydig dros 100 diwrnod ar y môr daeth trobwynt yn ei hanes pan ddigwyddodd nam trydanol yn system awto-beilot ei gwch. Dyna'r system fyddai'n gyrru'r cwch pan na allai Dafydd ei hun wneud hynny - pan fyddai'n cysgu, er enghraifft. Pan darodd y broblem, roedd e tua 700 milltir o arfordir de Awstralia ond gan nad oedd modd trwsio'r nam ar y môr bu'n rhaid dargyfeirio'r cwch i borthladd yn Nhasmania ac yna penderfynu rhoi gorau i'r her a gadael y ras. Derbyniodd ymateb eithriadol a chefnogaeth o bob cwr o'r byd yn dilyn ei benderfyniad ac yn rhyfedd iawn fe'i helpwyd yn y porthladd gan berthynas i Jenny Fothergill, Minafon - un o'r rhai oedd wedi rhoi cacen ffrwythau iddo i'w gynnal ar y daith. Byd bach!




Er gwaethaf y siom, dywed Dafydd ei fod yn ymfalchïo yn yr hyn y mae wedi'i gyflawni a'i fod yn teimlo ei fod wedi dringo ei Everest wrth deithio mor bell. Gallwn ni i gyd fod yn falch o'i gamp, wedi'r cyfan nid ar chwarae bach y mae rhywun yn llwyddo i hwylio hanner ffordd o amgylch y byd ar ei ben ei hun (ac wrth iddo hedfan yn ôl i Brydain ar ddechrau 2024 gallwn ni ond gobeithio y daw ag ychydig o heulwen Awstralia'n ôl gydag e i Gymru!)

Bellach fe drwsiwyd 'Bendigedig' a chyn hir fe fydd ar werth yn Nhasmania. Deallwn fod Dafydd yn dymuno cadw ei draed ar dir sych am y tro ac nad oes bwriadau pellach ganddo i fentro'n ôl i'r môr i rasio.

Llongyfarchiadau i ti Dafydd, ar ran darllenwyr Papur Pawb, a phob hwyl yn y dyfodol.

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## Golygyddion

Golygwyd y rhifyn hwn gan Menna Morgan gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Mair (mair.n@btinternet.com) a Betsan (betsanelenid@gmail.com) fydd yn golygu'r rhifyn nesaf.

Y dyddiad cau yw 2 Chwefror a bydd y papur ar werth ar 9 Chwefror.




'Den ni ond yn derbyn cerdyn eleni !'

## Swyddog Newydd

Mae Trish Huws, Pentre-bach, sydd wedi gweithredu fel Swyddog Hysbysebion Papur Pawb ers dros ddeng mlynedd, yn rhoi'r gorau i'r swyddogaeth. Mae'r papur yn ddiolchgar iawn i Trish am ei gwasanaeth dilychwin a chwbl effeithiol dros y blynyddoedd.

Olynydd Trish yw Helena O Sullivan, Bont-goch. Diolch iddi am ymgymryd â'r swyddogaeth. Ei manylion cyswllt yw:
Rhif ffon: 07812 994 008
Ebost: helena.osullivan@btinternet.com


Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
**07375 422 608**




Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674


## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cynhelir noson **AberOpera yn y Pictiwrs** yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7 o'r gloch ar nos Wener 16 Chwefror 2024. Dewch yn llu i fwynhau noson hwyliog o gerddoriaeth o'r ffilmiau a hysbysebion. Mynediad: £10 i oedolion a £3 i blant, i gynnwys lluniaeth ysgafn a chwis.
Noddir y noson gan Y Lolfa a bydd yr elw yn mynd tuag at Gronfa Cae Bach.

## Neuadd Goffa Tal-y-Bont

Mae'r Neuadd yn dathlu ei chanmlwyddiant eleni a bwriedir gosod cofeb yn y Neuadd i nodi'r achlysur.
Gwahoddir arlunwyr/dylunwyr i drafod syniadau ar gyfer y cynllun.
Manylion a thelerau i'w trafod.
Cysyllter â Gwyn Jenkins (832560 neu gwynjenkins81@gmail.com) erbyn 26 Ionawr.

### Cyngor Cymuned Llangynfelyn

## Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol.
Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Y Clerc, Cyngor Cymuned Llangynfelyn, Ynystudor, Tre'r-ddol, Machynlleth, Powys SY20 8PL

**Erbyn diwedd Ionawr 2024 fan bellaf.**

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**IONAWR**

14 **Bethel** 10 Trefniant Lleol
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

15 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 7.30 Noson gyda Meleri Wyn James

17 **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach

19 **Cwis** 8 Wildfowler

21 **Bethel** 10 Uno â Seion, Densil Morgan
**Rehoboth** 11.15 Pryor Davies
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**'Beth yw Cymuned?'** 2.30–3.30 Cletwr

25 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol
**Bingo** 7.30 Wildfowler

26 **Sesiwn Nos Wener** 8 Llew Gwyn (Bwca)

28 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

30 **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 7.30 Llanfach *(Helen Palmer, 'Exploring Old Aberystwyth in the Archives') Lluniaeth ar gael. Mynediad £2 (am ddim i aelodau 2019-20).*

**CHWEFROR**

2 **Cwis** 8 Wildfowler

4 **Bethel** 10 Uno â Seion
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

8 **Bingo** 7.30 Wildfowler

11 **Bethel** 10 Trefniant Lleol
**Rehoboth** 2 Judith Morris

**Noson gyda Karen Wilson**
Mae pwyllgor Llanfach a gwirfoddolwyr wedi trefnu noson gyda'r 'cyfrwng' Karen Wilson nos Wener 16eg Chwefror 2024 yn Neuadd Llanfach. Tocynnau £15. Ffoniwch 07875267451 am ragor o wybodaeth.

## Bob Wythnos

**Coffi a chlonc** yn y Cwtsh Cynnes gwaelod y Neuadd Goffa, 10 o'r gloch bob bore Mawrth.

**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

**Coffi a Sgwrs**
3ydd bore dydd Mercher bob mis am 10.30am. Trefnir gan Bwyllgor yr Henoed Llancynfelyn. Plwyfolion a chyfeillion, croeso i bawb.

**Dosbarth Yoga** 'Gentle Years' Sarah McKenna
Bob amser cinio dydd Llun yn Neuadd Llanfach, Taliesin

# Pobl a Phethe



## Ymwelydd pwysig

Braf oedd gweld Sion Corn yn ymweld â'r ardal unwaith eto rai dyddiau cyn y Nadolig. Cafodd groeso mawr gan bawb!



## Goleuo'r Goeden

Cafodd goleuadau'r goeden Nadolig ar y Patsyn Glas eu goleuo nos Iau, 7 Rhagfyr ac er gwaethaf y tywydd daeth nifer ynghyd i wylio a bwyta mins peis.

**Codi arian at Achub y Plant**
Ar Ddydd Sadwrn, 9 Rhagfyr, darparwyd gwledd o amrywiaeth o gawl cartref a bara yn yr Ystafell Haearn, wedi ei baratoi gan Sheila Lloyd a Delyth Tansley, gyda help eu gwŷr. Codwyd swm sylweddol o £285 at achos teilwng, sef Achub y Plant. Mae'n gwerthfawrogiad yn fawr i aelodau'r gymuned sydd mor weithgar yn codi arian at achosion da drwy'r flwyddyn.

**Clwb Gwawr y Pennau**
Aeth aelodau Clwb Gwawr y Pennau am drip siopa i Goed y Dinas ym mis Rhagfyr. Cafwyd prynhawn hyfryd yn edrych ar yr addurniadau Nadolig, cael bwyd yn y caffi yno ac wrth gwrs y cyfle i wneud ychydig o siopa Nadolig.

**Gwasanaeth Nadolig Eglwysfach**
Ar brynhawn Sul, 17 Rhagfyr, yn Eglwys Sant Mihangel, cynhaliwyd gwasanaeth o ganu carolau yng ngolau canhwyllau gan greu naws Nadoligaidd a rhoi gwir ystyr yr Ŵyl i gynulleidfa gref. Mae hwn yn wasanaeth arbennig iawn a braf gweld yr Eglwys yn llawn yn flynyddol. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd perfformiadau gwych gan Alex Evans, Pennal yn chwarae'r soddgrwth a Shaun Brown o Geinws ar y piano. Trwy garedigrwydd Gareth ac Amelia, fe gafwyd gwahoddiad i bawb i fynd i Westy Ynyshir, i fwynhau gwin cynnes a mins peis.



**Canu Calennig**
Braf oedd gweld Mari, Elsi, Ieuan a Magw yn mynd o ddrws i ddrws yn yr ardal eleni eto i gasglu Calennig. Dyma nhw yn cyfarch Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail ar fore dydd Calan. Da iawn, blant.



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Oisín Pennant, Penygro, Bontgoch. Cyn-ddisgybl Ysgol Tal-y-bont sydd wedi ennill Gwobr y Pennaeth yn noson Gwobrwyo Penweddig.

**Penblwyddi arbennig**
Dathlodd sawl un ben-blwydd arbennig yn ddiweddar, gan gynnwys Fred Davies, Maesyderi, David Morgan, Pentrebach, William Jones, Bwlchyddwyallt, Phil Davies, Gwynionydd, Robert Parry-Jones, Isallt ac Aeron Williams, Maesmeillion. Dymuniadau gorau i chi i gyd!

**Gwellad buan**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Sandra a Ciara Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont ar ôl cael damwain car cyn y Nadolig. Gobeithio eich bod yn gwella.

**Bingo Nadolig**
Diolch yn fawr i Chris a'i fam am noson ddifyr o Bingo Nadolig a mins peis yn y Wildfowler nos Iau 21 Rhagfyr.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Karen Evans ar enedigaeth ei hwyres, Remmie May.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Mark Joseph ar golli ei fam yn ddiweddar, nain Ioan, Carys ac Elis Joseph.

**Cinio Nadolig**
Cynhaliwyd cinio Nadolig i'r rhai dros 60 oed ym mhlwyf Llangynfelyn yn y Wildfowler ar ddydd Sadwrn, 9 Rhagfyr, a daeth nifer fawr ynghyd i fwynhau'r achlysur. Diolch yn fawr i Bwyllgor yr Henoed Llangynfelyn am drefnu ac i'r Wildfowler am y wledd ardderchog.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu Mrs Sheila Talbot, Penlôn, Tal-y-bont, a fu farw ar 4 Rhagfyr yn 78 mlwydd oed. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar 3 Ionawr.

**Rhedeg Cymdeithasol Cletwr**
Ffansi cadw'n heini yn 2024? Mae grŵp rhedeg lleol cyfeillgar sy'n addas i bob gallu rhedeg. Am y manylion diweddarach ewch i'r dudalen ar Facebook.


NICEIC APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**M** 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com

pp Ionawr 24.qxp_Layout 1 08/01/2024 5:08 pm Page 4



*Diddanu yn y Neuadd Goffa*



*Cyngerdd Nadolig*



*Cyngerdd Nadolig*



*Cyngerdd Nadolig*



*Mwynhau'r parti Nadolig*



*Gweithgareddau Ray Ceredigion*

pp Ionawr 24.qxp_Layout 1 08/01/2024 5:08 pm Page 5

# Ysgol Tal-y-bont

## Cyngerdd Nadolig

Cynhaliwyd ein cyngerdd Nadolig eleni yng Nghapel Bethel ac roedd hi'n hyfryd gweld yr adeilad mor llawn a chymaint o drigolion lleol a chyn ddisgyblion wedi dod i gefnogi'r ysgol unwaith eto. Hoffwn ddiolch i swyddogion y capel ac yn enwedig i Mr Ieuan Morgan am bob cymorth.

Cyflwyno stori'r geni wnaethom eleni gyda'r plant i gyd yn mwynhau'r perfformio, y canu a'r actio. A'r cyfan yn ein harwain at y preseb ac at eni Iesu Grist. Roedd hi'n amlwg fod y gynulleidfa a'r plant wrth eu boddau ar y noson ac roedd y gyngerdd wedi ei gwau at ei gilydd yn llwyddiannus iawn.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i Miss Morris am gydlynu'r perfformiad, i'r holl staff am eu gwaith yn paratoi'r plant mor drwyadl ac i'r rhieni hefyd am gynorthwyo gyda dysgu'r geiriau, y caneuon a'r gwisgoedd. Roedd sawl un o'r gynulleidfa wedi nodi fod naws arbennig i'r noson ac roeddem i gyd yn hynod falch o dderbyn eu canmoliaeth ar y noson. Pob clod i'r plant am ddysgu eu darnau mor arbennig ac am eu perfformiadau cofiadwy. Diolch o galon i Mrs Falyri Jenkins am bob cymorth gyda'r ochr gerddorol ac am gyfeilio ar y noson. Diolch hefyd i Aidan Hassan o'r Gwasanaeth Cerdd am hyfforddi'r offerynwyr.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rieni ac Athrawon hefyd am roi o'u hamser i baratoi ar gyfer y noson ac am sicrhau fod pawb wedi mwynhau eu hunain.

Credwn fod cynnal noson fel hon yn atgyfnerthu ymdrechion yr ysgol i fod yn rhan allweddol o'r gymuned leol yn ogystal â chael cyfle i gyfrannu i'r gymuned ehangach.

## Cyngerdd yn y Neuadd Goffa

Cafodd yr ysgol wahoddiad i ddiddanu trigolion yr ardal yn ystafell waelod y Neuadd Goffa cyn diwedd y tymor. Roedd hi'n hyfryd gallu perfformio mewn awyrgylch ymlaciol a chroesawgar. Diolch o galon i Mrs Jenkins am gyfeilio ac i Ali Greeley o'r Gwasanaeth Cerdd am hyfforddi'r offerynwyr. Diolch yn fawr am y losin a'r mins peis hefyd!

## Cinio Nadolig a Ray Ceredigion

Unwaith eto rydym am ddiolch i Mrs Jones a Natalie am ginio Nadolig arall blasus iawn. Mae pawb sydd wedi profi ein cinio ysgol yn canmol y safon ac roedd y cinio yma'n ein hatgoffa eto pa mor ffodus ydym ni yma yn Ysgol Tal-y-bont.

Ar ôl cinio daeth Ray Ceredigion atom i gynnal sesiwn o greu gwrthrychau gwahanol ac amrywiol gan ddefnyddio gwastraff a deunydd ailgylchu. Roedd hi'n hyfryd gweld holl blant yr ysgol yn ymuno gyda'i gilydd a defnyddio eu dychymyg i greu a chwarae mor naturiol. Diolch i'r rhieni am gynorthwyo hefyd.

## Parti Nadolig

Cafwyd parti hyfryd yn yr ysgol i ddweud diolch wrth y plant am eu gwaith. Diolch yn fawr i ymwelydd arbennig iawn am ddod atom i ddosbarthu'r anrhegion – gobeithio bod Sion Corn wedi cael cyfle i ymlacio erbyn hyn!

## Sinema

Mae plant yr ysgol yn ffodus iawn o gael mynd i weld ffilm yn Sinema'r Commodore yn Aberystwyth yn flynyddol diolch i haelioni'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Eleni y ffilm oedd 'Elf' ac fe gafodd pawb amser da wrth chwerthin ar gampau'r cymeriadau doniol.

## Siwmperi Nadolig

Mae gwisgo ein siwmperi Nadolig yn fodd o gofio am elusen Achub y Plant a'i gwaith yn helpu pob mewn angen. Mae'n draddodiad sydd wedi bod gyda ni ers sawl blwyddyn bellach ac eleni eto cawsom dipyn o hwyl yn cymharu'r siwmperi diddorol a doniol. Diolch yn fawr am eich cyfraniadau hael wrth gefnogi.



*Ymweliad Sion Corn*

## Raffl Fawr y Nadolig

Hoffwn ddiolch o galon i bawb am y gwobrau hael ar gyfer ein raffl eleni eto a diolch yn fawr i bawb wnaeth brynu tocyn. Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr!

Gwobrau'n rhoddedig gan: Cletwr, Y Lolfa, Garej Davmor, Siop Premier Tal-y-bont, Llew Gwyn Tal-y-bont, Fferyllfa Tal-y-bont, BMO, Summit Cycles Aberystwyth, Adran Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth, Llyfrgell Machynlleth, Siop Penrhyn-coch, Y Comisiwn Brenhinol, Llaeth Jenkins, Cigydd Deri Davies Aberystwyth, Libanus Borth, Wynstay Aberystwyth.

Enillwyr: Paul a Maggie Pownall, Tomos Morgan, Lynda Kempsey, Mari Hefin, Monica Lloyd-Williams, Olwen Coward, Harvey Brown, Arron Hiscox, Diane Tudor, Arthur Dafis, Davis Morgan, Tara Foster, Carol Price, Elgan Evans, Teulu Hughes, Elsi Iago, Rhodri Lloyd-Williams.


## Trefnydd Ecodyfi a Chydlynydd Biosffer Dyfi

Cyfle arbennig i berson brwd!

**Nodweddion allweddol i gynnwys:**
Datblygu a rheoli prosiectau a chodi arian; Rheoli staff a sefydliad; Cyfathrebu; Y gallu i weithio yn y ddwy iaith; Gwybodaeth am y gymuned leol a chynaliadwyedd.

**Y Nod:** Datblygu adnoddau a chapasiti ecodyfi a Biosffer Dyfi UNESCO. Cyd-gynllunio i sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gwirioneddol i Fro Ddyfi ac ardal Biosffer Dyfi yn ehangach.

Contract cychwynnol 12 mis; 37 awr/wythnos.
Cyflog £33-37K yn dibynnu ar sgiliau a phrofiad.

Am fwy o fanylion:
www.ecodyfi.cymru, andy@ecodyfi.cymru, 01654 703965

Dyddiad cau NEWYDD: 10yb 12 Chwefror 2024

ecodyfi

Biosffer Dyfi Biosphere
*gwerth y byd - world class by nature*

pp Ionawr 24.qxp_Layout 1 08/01/2024 5:08 pm Page 6



*Y plant yn eu gwisgoedd*

# Cyngerdd Nadolig a Ffair Grefftau Cylch Meithrin Tal-y-bont

Cynhaliwyd sioe orau'r flwyddyn ar y 7fed o Ragfyr yn y Neuadd Goffa. Cynhaliodd plant y Cylch Meithrin sioe Nadolig lawn canu a hwyl. Diolch i'r staff am eu holl waith caled yn paratoi'r sioe, Fal Jenkins am chwarae'r piano ac i'r pwyllgor a'r rhieni am eu help llaw ar y noson.

Roedd yna stondinau Nadolig hyfryd yn ogystal â the, coffi a chacen i bawb. Bydd yr holl arian a godwyd yn mynd tuag at brynu adnoddau addysgol i'r plant. Diolch yn fawr iawn am eich holl gefnogaeth!

*Holly Aubrey*

# Gyrfa Chwist y Sioe



Ar nos Fercher, 20 Rhagfyr, cynhaliwyd yr yrfa chwist flynyddol yn y Neuadd Goffa. Bu'n noson lwyddiannus gyda 16 o fyrddau ac yn cadw trefn ar y cyfan fel arfer oedd Glyn Davies yr M.C.

Daeth y cyfle am baned a chacennau hanner amser a phrynu tocyn raffl gan Marion ac Ann. Ailddechreuwyd ar y chwarae a buddugwyr y noson oedd:

Sgôr Uchaf: Heledd Edwards, Ganllwyd
1af Dynion/Merched: Alun Daniel, Abergwydol/Glenys Evans, Machynlleth
2il Dynion/Merched: Richard Jones, Llanbrynmair/Myfanwy James, Bryn Eglur
3ydd Dynion/Merched: Evan Davies, Pentremawr/Janet Evans, Cefngweiriog
Bwrw allan Dynion/Merched: Alun Daniel, Abergwydol/Aeron Edwards, Lledrod
2il Bwrw allan Dynion/Merched: Tom Allday, Llanbrynmair/Dafydd Jenkins, Tanrallt
1af o dan 16 oed: Gwerfyl Morgan, Aberystwyth
2il o dan 16 oed: Elsi Iago, Pantcoch
"Booby" Dynion/Merched: Morien Jones, Talsarn/Dave Lewis, Aberdyfi
Miniatur Dynion/Merched: Trefor Jones, Pennal/Lyn Roberts, Machynlleth

Cyn diwedd y noson tynnwyd y raffl fawr a'r enillwyr oedd:
£100 - Peter Watkin, Blaenwaun, Borth; £75 - Alun Daniel, Abergwydol, Penegoes; £50 - Dilwyn Evans, Tynant; £25 - Wyre James, Llanilar; £20 - Peter Watkin, Blaenwaun, Borth; £10 - Jon Hadlow, Green Cottage, Tal-y-bont; £10 - Audrey Williams, Blaenplwyf; £10 - Ann Jenkins, Llety'r Bugail.

Enillwyd sawl gwobr y raffl fach gan bobl leol. Diolch i'r rhai fu wrthi'n helpu ar y noson ac i bawb ddaeth i gefnogi.

# Gwasanaeth Noswyl Nadolig yr Ysgol Sul



*Plant Yr Ysgol Sul*

Ni fyddai'r Nadolig yn gyflawn i nifer o ddarllenwyr Papur Pawb heb fynychu gwasanaeth Nadolig plant a ffrindiau Ysgol Sul Capel Bethel ac roedd hi'n hyfryd gweld y capel yn llawn ar noswyl Nadolig eleni eto.

Yn ystod y gwasanaeth canwyd dwy garol gan barti Plygain Cymdeithas Papur Pawb a chafwyd eitemau gan rieni a ffrindiau'r Ysgol Sul cyn iddi ddod yn amser i'r plant gymryd rhan. Fe wnaethon nhw berfformio yn ardderchog gyda chymorth tri gŵr doeth arbennig sef Geraint Jenkins, Sion Saunders Jones ac Elgan Evans. Diolch iddynt am gymryd rhan ar fyr rybudd ac am fod mor barod i wisgo'r gwisgoedd a'r coronau! Diolch hefyd i'r rhai fu'n helpu o flaen llaw ac i bawb fu'n cymryd rhan gan lwyddo i gyfleu gwir neges y Nadolig i ni i gyd unwaith eto.

Yn ystod y gwasanaeth gwnaed casgliad o £376 tuag at Apêl Israel a Phalesteina y Groes Goch https://donate.redcross.org.uk/appeal/israel-and-occupied-palestinian-territory-appeal






pp Ionawr 24.qxp_Layout 1 08/01/2024 5:08 pm Page 7

# Holi Llywydd newydd CFfI Ceredigion

Dyma gyfweliad arbennig gyda Mair Nutting, Tyhen Henllys, Tal-y-bont a gafodd ei hethol yn Llywydd Mudiad CFfI Ceredigion am y flwyddyn 2023-2024.

**Sut ddest ti'n Llywydd a beth fydd dy rôl di dros y flwyddyn nesaf?**
Ces i bach o sioc i ddweud y gwir, pan ffoniodd y swyddfa i ddweud bod rhywun o glwb CFfI Pontsian wedi fy enwebu i fod yn Is-lywydd y sir. Dywedes i "dyw hyn ddim yn rhywbeth y bydden i'n gyfforddus i neud fel arfer, ond dwi'n annog aelodau CFfI Tal-y-bont i drïo peidio gwrthod neud rhywbeth", felly dywedes i "iawn"!

Roeddwn i'n Is-lywydd am flwyddyn ac yna'n Llywydd eleni. Roeddwn i'n Is-lywydd gydag Annette Jones, CFfI Penparc, Llywydd y llynedd, oedd yn aelod o'r mudiad tua'r un adeg â fi ac yn gwmni arbennig. Fel mae'n digwydd mae cysylltiad arall gyda fi gyda chlwb Penparc - roedd mam yn aelod yno pan oedd hi'n athrawes yn Aberteifi yn 1956-58!

Eleni dwi'n trïo mynd i bob cystadleuaeth a chyfarfod yn y sir, sydd yn job achos mae'r cystadlaethau'n dod rownd mor gyflym. Yn ôl beth wela' i, dim ond mwynhau sydd angen i fi wneud ond mae yn fraint ofnadwy cofiwch!

**Beth mae bod yn Llywydd yn ei olygu i ti?**
Nes i ddim ystyried yn iawn ar y dechrau ond fel mae'r amser yn pasio ac fel dwi'n dod i adnabod yr aelodau ar draws y sir, dwi'n neud llawer o ffrindiau newydd o bob oedran. Heb y cysylltiad gyda'r aelodau ifanc yma fyddwn i ddim ar BeReal!* Hefyd, dwi'n sylweddoli dyw bod yn aelod ddim yn golygu faint ydych chi'n ei gael allan o'r mudiad, mae yr un mor bwysig faint ydych chi'n ei fuddsoddi neu'n rhoi mewn i'r mudiad hefyd.

**Rwyt ti wedi gweld sawl newid dros y blynyddoedd yn y mudiad. Wyt ti'n ffyddiog am ddyfodol CFfI?**
Ydw. Mae'n fudiad hollol allweddol i gadw'r iaith yn fyw yn ein cymunedau a chefnogi diwylliant y fro Gymreig yn ein cymunedau, ond mae'n rhaid cael arweinwyr i arwain yr aelodau. Rwy'n credu bod Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru yn chwarae rôl allweddol i gyflawni targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Rydyn ni mor ffodus o staff y swyddfa hefyd. Dwi wedi gweld pa mor allweddol ac effeithiol ydyn nhw - mae gan bob un ei gryfder i wneud tîm hollol arbennig.



**Dyma dy gyfle di i recriwtio aelodau newydd i Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r cylch, o blith darllenwyr ifanc Papur Pawb. Sut mae modd ymuno gyda chi a phryd ydych chi'n cwrdd?**
Diolch am y cyfle i recriwtio. Mae'r clwb yn cwrdd bob nos Fawrth yng ngwaelod y Neuadd Goffa fel arfer, ond gallwch chi ymuno gyda grŵp facebook y clwb - CFfI Tal-y-bont - i weld beth yn union sy'n mynd ymlaen. Cysylltwch gydag Ynyr Siencyn, Tanrallt, Cadeirydd y clwb i gael mwy o wybodaeth. Mae croeso i bawb! Hefyd mae mwy o wybodaeth yma - https://yfc-ceredigion.org.uk Mae'r wefan yn dweud "Mae'r mudiad yn cynnig cyfleon a phrofiadau arbennig ac mae'n apelio at bob oedran a chefndir" a dyma'n **union** beth yw'r CFfI! Mae fyny i'r aelod i wneud y mwyaf o'i aelodaeth.

Gyda llaw, ydych chi wedi clywed am y cynllun 'Ffit i'r Haf', cynllun arloesol gan CFfI Ceredigion? Hyd yn oed os ydych chi tu hwnt i oedran aelodaeth y mudiad, gallwch chi fod yn 'Aelod Cyswllt'. Gwnewch yn fawr o'r cyfle!

**Rwyt ti mor weithgar yn y gymuned, yn cynorthwyo gyda'r Ffermwyr Ifanc, Capel Bethel, Merched y Wawr, Sioe Tal-y-bont ayyb. Sut wyt ti'n cael amser i wneud popeth? Beth yw'r gyfrinach?**
W'm'bo! (Dyd**w** i ddi**m** yn gw**bo**d!)

**Gan ein bod ni'n wynebu blwyddyn newydd, rwyt ti'n cael un dymuniad. Beth wyt ti'n ei ddymuno?**
Ers bod yn arweinydd am rai blynyddoedd nawr, dwi wedi gweld sawl aelod yn blodeuo ac yn magu hyder. Mae'n fodd i fyw i fi ac yn gyfle i dalu 'nôl i'r mudiad am yr holl gyfleon ges i a'r cyfleon dwi'n dal i'w cael, felly dwi'n dymuno bod unrhyw gyn-aelod o'r clwb yn ystyried rhoi ychydig amser 'nôl i arwain noson neu rannu unrhyw sgil maen nhw wedi ei ddysgu drwy'r mudiad. Cysylltwch gyda'r clwb!

Diolch yn fawr i ti, Mair, a phob hwyl yn ystod y flwyddyn.

** Gol: Ap cyfryngau cymdeithasol yw BeReal sy'n anfon hysbys ar hap unwaith y dydd sy'n dweud 'Time to BeReal'. Mae disgwyl i'r defnyddwyr bostio llun, o fewn cyfnod o ddwy funud, o'r hyn y maen nhw'n ei wneud ar y pryd.*

STEILIO DOTS... STYLING
YN CYFLWYNO
FFAIR BRIODAS A DIGWYDDIADAU
04 - 02 - 2024
PAFILIWN PONTRHYDFENDIGAID SY25 6BB
11-3
WWW.STIWDIODOTS.CO.UK
POST@STIWDIODOTS.CO.UK

Ydych chi'n trefnu digwyddiad, dathliad neu gyfarfod pwysig ym 2024?
Ydych chi'n priodi? neu am gael parti mawr?

Dim syniad ble mae dechrau trefnu?
Wel mae Steilio dots... yma i'ch helpu, gyda digwyddiad newydd sbon ar eich cyfer

Dewch i weld a sgwrsio â nifer o gyflenwyr lleol i Geredigion yn ein
FFAIR BRIODAS A DIGWYDDIADAU – y cyntaf o'i bath yng nghanolbarth Cymru.
Lleoliad: Pafiliwn Pontrhydfendigaid
Dyddiad: Sul 4ydd Chwefror 2024 • Amser: 11-3

Bydd sgyrsiau a gweithdai yn ystod y dydd
Lluniaeth ysgafn • Mynediad am ddim

Gofod ar gyfer nifer cyfyngedig o stondinau ar gael o hyd,
cysylltwch nawr os hoffech archebu lle
post@stiwdiodots.co.uk

STORFA HUNAN FYNEDIAD
UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI
MONITRO DIOGELWCH
24 AWR
Storfa Cartref & Busnes
Bocses a Bubblewrap
Symud gyda Mid Wales Removals
STORFA CANOLBARTH CYMRU
Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
MID WALES STORAGE
www.midwalesstorage.co.uk

# Cofio Goronwy

Mae pennod yn y gyfrol newydd a gyhoeddwyd gan Y Lolfa, *Cymru Gudd* gan Dylan Arnold, yn adrodd hanes hen gartref y cymeriad annibynnol, diymhongar a diddorol Goronwy Owen Thomas a fu farw yn 91 oed yn Nhachwedd 2019. Bu'n byw am flynyddoedd yn Nhŷ Hir, ffermdy sy'n sefyll ar ochr y ffordd fawr rhwng Tre'r-ddôl a Ffwrnais.

Ni chyhoeddwyd teyrnged iddo yn *Papur Pawb* wedi ei farwolaeth ac er mwyn gwneud yn iawn am hynny dyfynnwn ychydig o'r bennod ddifyr yn y llyfr hwn.

'Doedd Goronwy ddim yn siarad llawer am ei fywyd personol. Roedd yn ddyn preifat ofnadwy, ac yn ffyrnig o annibynnol... Dangosodd Goronwy dalent brin yn hyfforddi cŵn defaid. Roedd ganddo ddawn naturiol gyda chŵn ac roedd wrth ei fodd yn eu cwmni... Bu'n arfer cynorthwyo fferm Tynygraig i hyfforddi eu cŵn defaid a hynny gyda chryn llwyddiant. Roedd teulu Tynygraig yn rhoi cŵn bach, deufis oed i Goronwy, ac yntau yn eu magu nes oeddent yn ddeg mis oed, cyn ei dychwelyd yn ôl i'r teulu. Wedyn byddent yn barod i gael eu hyfforddi yn caeau efo'r defaid. Weithiau rhoddid un neu ddau o gŵn i Goronwy eu magu, a byddai wrth ei fodd. Roeddent yn gwmni da iddo ac yn ei gadw'n brysur. Dysgodd Goronwy foesau da i'r cŵn, a byddent o natur annwyl a thymer dda ar ôl cael ei hyfforddi ganddo...



*Goronwy, yn ei saithdegau, yn cneifio (llun: Dafydd Jenkins)*

Roedd ochr arall i gymeriad Goronwy oddi allan i'w gartref. Er ei fod yn ddyn preifat, roedd hefyd wrth ei fodd yng nghwmni pobl. Roedd ganddo hiwmor da ac yn ddyn dymunol i'w gael o gwmpas.'

Dim ond pytiau o bennod hynod ddifyr a geir uchod a dim ond sylw a gyflwynir yma i un cymeriad a'i gartref. Mae penodau tebyg yn y gyfrol yn llawn gwybodaeth am adfeilion tai ac adeiladau eraill ar hyd a lled Cymru ac am y bobl a oedd yn gysylltiedig â hwy, ynghyd â lluniau trawiadol gan ffotograffydd talentog. Prynwch y llyfr i ddarllen mwy am Goronwy ac am hanes 'gudd' olion ein cymdeithas.

*(Cymru Gudd,* Dylan Arnold, cyhoeddwyd gan Y Lolfa, 2023)

*GJ*


Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553


Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk


# Enwau Coll Ardal Papur Pawb

## Apêl am Gymorth



Bydd darllenwyr Papur Pawb mwy na thebyg yn ymwybodol o waith y Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol yn cofnodi ac amddiffyn ein treftadaeth enwau lleoedd. Sefydlwyd y Rhestr yn 2016 fel ymateb i'r broblem o Seisnigo enwau lleoedd. Pwrpas y Rhestr yw cofnodi holl enwau lleoedd Cymru, eu hamddiffyn yn gyfreithiol, a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn y gymuned, a chan yr awdurdodau wrth enwi neu ail-enwi tai a datblygiadau newydd. Erbyn heddiw mae bron i 700,000 o enwau wedi'u diogelu ynddi. Mae'r ffynonellau rydym yn eu defnyddio yn y gwaith yn amrywio o ddogfennau canoloesol a hen fapiau i gasgliadau o enwau caeau a wnaed yn ddiweddar. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n trawsysgrifio enwau o focs o hen ddogfennau a gawsom gan Phil a Ruth Hughes, Argoed-fawr. Mae'r dogfennau'n ymwneud â hanes teulu Hughes yn yr ardal, ac mae rhai ohonynt yn mynd yn ôl mor bell â'r 1570au. Maent yn cynnwys mapiau, amodysgrifau, biliau a ballu, ac felly mae'r dogfennau'n drysorfa o enwau lleoedd y fro, sy'n rhoi cip ar hynafiaeth rhai o'r tai i ni. Wyddoch chi er enghraifft, bod enw Cerrig Caranau'n dyddio'n ôl hyd o leiaf 1609? Neu bod enw Pen y Graig mor hen â 1658? Fodd bynnag, ni fu'n bosibl i ni ganfod union leoliad yr enwau i gyd, yn enwedig ymysg y rhai hynaf. Nid oedd hi'n bosibl adnabod p'un ai tai neu gaeau a olygir gan rai o'r enwau ychwaith. Dyma ofyn i chi am eich help, felly. Os ydych yn gwybod ble mae, neu ble oedd y llefydd isod, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda. Yn yr un modd, rydym wastad yn chwilio am fwy o enwau, felly os oes gennych chi gasgliad o ddogfennau'n debyg i rai Argoed-fawr, neu os oes gennych chi enwau ar eich caeau, dewch â nhw mewn, fel ein bod yn gallu adeiladu'r gronfa fwyaf posibl o enwau lleoedd Cymru. Gallwch gysylltu â ni yma: https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/cysylltu

Tyddyn y fron
Gwern-ronwe-grach
Tyddyn yr ardd fawr
Ty yn y llidiart
Tyddyn David ap Howel ap Ieuan ap Griffith
Tyddyn Cerrig yr Onan
Tyddyn y Clawdd Coch
Llyest-Esgyr-Veyddyn
Llety y Mab Coch
Llain dan y ty
Llain Gweirglodd yr Onnen
Cefn y Dre
Gweirglodd Gryno
Bwlch Glan Fadog
Glan Fadog
Gweirglodd y Berth
Gweirglodd y Fallen Wen
Gweirglodd Porth y Farcud
Llain y Llechwedd
Llaine y Coed hongill
Llwyn Morran
Llwyn Morfa
Bryn yr Ŵyn
Tyddyn Cae Coch
Tyddyn Gwern Glised
Wern Lâs
Gwedd Ynys
Cwm Ysgolhaig

pp Ionawr 24.qxp_Layout 1 08/01/2024 5:08 pm Page 9

# Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Daeth yr aelodau ynghyd i festri Rehoboth, Tre-Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 12 Rhagfyr, ac estynnodd Meinir Fleming groeso i bawb ac i'r wraig wadd, sef Catrin M. S. Davies, Tal-y-bont. Bu Catrin yn sôn am ei gwaith yn cynhyrchu rhaglenni teledu megis 'Dylan ar Daith' gyda Dylan Iorwerth, pan fuont yn teithio i rannau o'r byd i greu rhaglenni dogfen i adrodd hanes nifer o Gymry dylanwadol a deithiodd dramor yn y dyddiau a fu gan adael eu marc mewn nifer o wledydd ar draws y byd. Yn eu plith yr oedd Helen Rowlands, ieithydd ac athrawes o Ynys Môn, a deithiodd i'r India ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf gan sefydlu lloches i blant amddifad a gweddwon digartref yn Assam. Dau arall oedd Thomas Bevan a David Jones a deithiodd o Geredigion yn 1818 i fod yn genhadon ym Madagascar gan sefydlu ysgol o'r enw Ysgol Thomas Bevan yn Tamatave. Cymro arall a ddaeth yn enwog dramor oedd Benjamin Piercy o Drefeglwys, un o'r peirianwyr rheilffyrdd cynnar a chynllunydd nifer o bontydd rheilffordd, ac a gynlluniodd reilffyrdd ar draws Cymru, Sardinia, Ffrainc ac India yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Diolchwyd yn gynnes i Catrin am gyflwyno hanes diddorol y Cymry yma nad oedd eu hanes yn wybyddys i lawer ohonom. Yna mwynhawyd paned a chacen wedi ei baratoi gan Bethan Davies gyda chymorth Aileen Williams.


*Catrin M S Davies, y wraig wadd*

## Merched Y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Ym mis Tachwedd, yn absenoldeb ein gŵr gwadd oherwydd salwch, buom yn ddigon ffodus i allu ymuno, dros Zoom, gyda pherchennog siop anrhegion 'Llawn Cariad' yn San Clêr. Yn rhithiol, fe gawsom ein tywys o amgylch y siop gan ryfeddu at yr amrywiaeth o nwyddau a oedd yn llenwi pob twll a chornel. Roedd yn gyfle hefyd i ni gasglu syniadau ar gyfer anrhegion Nadolig. Darparwyd cwpaned i gloi'r noson gan Ellen a Mair.

Ar 19 Rhagfyr, dros Zoom unwaith eto, mwynhaodd yr aelodau noson yn dwyn y teitl 'Cracyr Nadolig'. Roedd pob rhanbarth dros Gymru wedi paratoi eitem Nadoligaidd ei naws, o barti canu plygain i sgets ac o'r difrif i'r digri.

Mwynhawyd lluniaeth a diod cynnes Nadoligaidd i gloi ein cyfarfod olaf yn 2023.

Edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus arall yng nghwmni ein gilydd yn 2024.

*FJ*




# Nadolig yn Ionawr?



Ym mis Rhagfyr roedd tair stori Nadolig o wahanol wledydd ym Mhapur Pawb. Dyma stori Nadolig arall sy'n berthnasol i fis Ionawr, gan un sydd hefyd yn byw yn ein plith.

Mae Nadolig yng Nghymru a nifer fawr o wledydd eraill ar 25 Rhagfyr ond nid felly y gwledydd oedd dan ddylanwad yr Undeb Sofietaidd am gyhyd. Ar 7 Ionawr mae eu Nadolig nhw ac yn Wcráin hefyd. Dechreuodd y drefn newydd dan ddylanwad y Bolsieficiaid ym 1918 pan newidwyd y calendr Gregori, sef yr un a ddefnyddid yng Nghymru, i'r un Julius. Unig fwriad newid y calendr oedd bod yn wahanol i Ewrop ond roedd hefyd yn ymgais i gael gwared â'r ffydd Gristnogol; wrth newid i galendr Julius roedd yn golygu symud dydd Nadolig o 25 Rhagfyr i 7 Ionawr. Ym marn y Bolsieficiaid, Dydd Calan oedd y diwrnod mwyaf pwysig a'r diwrnod a benodwyd i gymryd lle'r ŵyl Gristnogol yn Rhagfyr. Heddiw yn yr hen Undeb Sofietaidd mae dathliadau 31 Ionawr yn wirioneddol liwgar, swnllyd a rhwysgfawr. Mae'r bobl yn addurno coeden y flwyddyn newydd, yn rhoi anrhegion, yn cynnal partion, yn cyfarch ei gilydd yn swnllyd a llawen ac yn uchel iawn eu cloch pan fo'r clychau'n canu am ddeuddeg. Peidied neb â meddwl nad yw bwyd yn rhan o'r achlysur, mae digonedd!

Mewn ymgais fawr i waredu Cristnogaeth nid oedd y Cristion yn cael mynd i'r eglwys, erlidiwyd yr offeiriaid a charcharwyd nifer ohonynt. Serch hynny parhaodd y grefydd Gristnogol, ond yn y dirgel.

Felly mae bobl Wcráin yn dathlu'r Nadolig bron i bythefnos ar eich ôl chi a gweddill Ewrop ond ers yr ymosodiad ar y wlad gan Rwsia dychwelwyd y Nadolig i 25 Rhagfyr. Mae hanner y bobl yn dathlu fel chithau a'r lleill, yn arbennig y Cristnogion Uniongred, yn dal i ddathlu ar 7 Ionawr. Cynhelir gwasanaeth iddyn nhw yn yr eglwys yn hwyr ar 6 Ionawr a dyna pryd gwelir yr eglwys a chartrefi'r credinwyr wedi eu haddurno gyda'r preseb, yr Iesu, Mair a Joseff, y tri gŵr doeth ac anifeiliaid dof dan seren ddisglair yn y nen.

Am bedwar deg diwrnod cyn y 7fed bydd y Cristion Uniongred yn ymprydio'n llym, dim bwydydd o gynnyrch anifeiliaid a dim alcohol. Mae'r dathliadau'n dechrau ar ymddangosiad y seren gyntaf yn yr awyr ar y diwrnod hwnnw. Darperir 12 dysgl Lenten ar gyfer Noswyl Nadolig (symbol yw'r 12 o'r deuddeg apostol a misoedd y flwyddyn.) Bydd llawer o'r bwydydd yn ddiethr iawn i chi'r Cymry: *Kutya* ac *uzvar* (diod o ffrwythau sych ac aeron), cawl bresych, *borscht* Lenten (cawl betys), twmplen, dysglau o bs a ffa, salad o fetys a phrŵns, cnau Ffrengig, *sauerkraut* (bresych chwerw) a nifer o bethau wedi eu piclo, tomatos, winwns, madarch a chiwcymber.

Yn eu cartrefi gyda'r teulu mae'r bobl yn bwrw'r Noswyl Nadolig ond ar y 7fed gall y genedlaeth hŷn a'r rhieni bedydd ddisgwyl ymweliad. Mae'n draddodiad i'r ymwelwyr ddod â *Kutya* gyda nhw, (dysgl o wenith wedi ei ferwi yw hwn ynghyd â chnau Ffrengig, resins, hadau pabi, prŵns, bricyll sych a mêl). Mae'r gwenith yn y *Kutya* (mae Wcráin yn cynhyrchu bron digon ohono i'r holl fyd) yn arwydd o ddigonedd, bywyd tragwyddol a'r bywyd atgyfodedig. Arwydd o burdeb a Gair Duw yw mêl ac mae'n cynrychioli merthyrdod: colli gwaed dieuog yw'r pabi.

Cyfarchiad yr Ŵyl yw 'Ganwyd Crist' a'r ymateb yw 'Canmolwn Ef'. Mae ganddoch chi eich calennig ac yn Wcráin ar y 7fed mae rhywbeth tebyg. Gwisga'r bobl eu gwisg draddodiadol i ganu carolau a mynd o dŷ i dŷ gan obeithio am gydnabyddiaeth am eu hymdrechion! Mawrygu Mab Duw y mae'r carolau gan ddymuno hedd, daioni a ffyniant i'r trigolion. I'r Cristion Uniongred, yr Adfent yw dechrau'r Flwyddyn Newydd a'r Nadolig yw Dechrau y Dechreuadau.

Veseloho Rizdva a Z Novym Rokom!

*Iryna Kolpakova*

pp Ionawr 24.qxp_Layout 1 08/01/2024 5:08 pm Page 10

# Cinio Blynyddol Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Cafwyd noson hwyliog dros ben yn Yr Hafod, Pontarfynach, ar nos Wener yr 8fed o Ragfyr yng nghinio blynyddol y Sioe. Daeth criw da ynghyd i gymdeithasu a mwynhau pryd o fwyd arbennig yng nghwmni'r Llywyddion, Glyn a Gill Saunders Jones, Fagwyr, Llandre. Y gŵr gwadd eleni oedd Iestyn Leyshon, yr arwerthwr tai, a diddanwyd pawb gyda'i straeon difyr!



*Iestyn Leyshon, y gŵr gwadd*

## Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed

Glanhau llochesi bws - Mae'r Cyngor yn chwilio am rhywun i lanhau'r llochesi bws Eglwys-fach a Ffwrnais ddwywaith y flwyddyn. Bydd tâl am hyn. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Teresa (clerc) drwy e-bost clerk@ysguborycoedcommunitycouncil.co.uk neu drwy ffonio 07974488564.

Doedd yna ddim cyfarfod o Gyngor Cymuned Ysgubor y Coed ym mis Rhagfyr ond bu digon o ddigwyddiadau yn yr ardal gan gynnwys:

Man cynnes - Mae'r Cynghorydd Toland a'i wraig Claire wedi bod yn cynnal digwyddiadau man cynnes yn yr Ystafell Haearn, Eglwysfach ar brynhawniau Mawrth rhwng 2 a 4pm. Ar y 19eg o Ragfyr trefnwyd noson Jazz gyda Phil Wheeler a'i fand. Mwynhawyd noson hynod o ddifyr gan bawb ac roedd y cerddorion yn wych. Da iawn Claire a Harry – Bendigedig.

Gwasanaeth Carolau – roedd Eglwys Sant Mihangel yn llawn ddydd Sul Rhagfyr 17eg ar gyfer y Gwasanaeth Carolau golau cannwyll. Yn dilyn y Gwasanaeth mwynhawyd mins peis a gwin cynnes yng Ngwesty Ynyshir a diolchodd y Cynghorwyr i Gareth ac Amelia am eu lletygarwch.

Hoffai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn 2023 ac edrychwn ymlaen at eich cefnogaeth barhaus yn 2024. Diolch yn arbennig i olygyddion Papur Pawb am adrodd am yr ymgyrch i newid terfyn cyflymder yr A487 drwy'r pentrefi ac i gael llwybrau troed. Mae ffilm ar y gweill ar y funud ynglyn â'r diffyg diogelwch wrth gerdded rhwng y pentrefi ac os oes gennych ddiddordeb mewn helpu neu gyfrannu at y ffilm cysylltwch â Ruth: ruth-stevenson@live.co.uk Kate: kate.fenhalls@zen.co.uk 07775 764 644

Dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor: 10/01/2024

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111


Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

# Yn Naturiol



## Y Gath Goed Olaf?

Ym mis Tachwedd 1893 fe saethodd cipar Plas Penpompren gath frech a oedd yn llawer mwy na'r cyffredin ac fe aed â hi i Hutchings y tacsidermydd yn Aberystwyth i'w diogelu a'i gosod mewn casyn gwydr. Roedd gwneud hynny'n ffasiynol ar y pryd a byddai amrywiaeth o anifeiliaid gwyllt a dof i'w gweld mewn cartrefi.

Byddai J. H. Salter, Sŵolegydd yn y Coleg yn Aberystwyth yn galw heibio gweithdy Hutchings yn rheolaidd a phan welodd gorff cath Plas Penpompren roedd yn argyhoeddedig mai cath goed (felis silvestris) oedd hi, ac i wneud yn hollol siŵr bu'n ei chymharu â chathod coed o'r Alban lle roeddent yn parhau i fod yn niferus. Ddwy flynedd yn ddiweddarach saethodd cipar Plas Penpompren gath frech arall ond barnai Salter mai croesiad rhwng cath coed a chath ddof oedd honno.


Bu'r gath goed yn gyffredin yng Nghymru ar un adeg ond gan ei bod yn lladd wyn bach a ieir roedd tâl da i'w gael am ei difa ac erbyn 1893 y gred oedd eu bod wedi diflannu'n llwyr o Gymru. Tybed felly ai'r gath o ardal Tal-y-bont oedd yr un olaf?

Mae enwau o leiaf dri llecyn o fewn dalgylch Papur Pawb sy'n awgrymu cysylltiad â'r gath goed. Dyna Nant y Gath rhwng Dôlrhuddlan a safle Capel Sbaen ar y mynydd a Craig y Gath yn y coed gyferbyn â Bwlch Einion yng Nghwm Einion, Eglwys-fach. Ond efallai mai'r un mwyaf diddorol yw Craig y Gath o war y llidiart yn groes i'r ffordd rhwng hen waith mwyn Bwlch-glas a ffermdy Cyneiniog. Byddai'r creigiau llawn ceudyllau wedi'u gorchuddio â grug wedi bod yn lloches ddelfrydol i'r gath goed. Hyd yn ddiweddar roedd yna draddodiad llafar yn honni bod y gath goed a gysylltir â'r fan honno yn arfer cysgu yn y bing yng Nghyneiniog.

Tybed a oes rhagor o hanesion amdani yn parhau ar lafar gwlad?

*Cledwyn Fychan*

## Cyngor Cymuned Llangynfelyn



Cyfarfu'r Cyngor Cymuned ar ail nos Lun y mis. Trafodwyd materion lleol o bwys i'r ardal gan gynnwys cyflwr wyneb y ffordd yn Stryd y Capel, a ffyrdd a phalmentydd eraill o fewn y plwyf. Nodwyd bod golau stryd ychwanegol wedi ei osod yn Heol y Gogledd, Tre'r Ddôl. Mae trafodaeth hefyd ar adleoli yr arosfan bws sydd yng nghanol Taliesin oherwydd y duedd i ddŵr ar y ffordd or-lifo wrth yr arosfan presennol.

Yn dilyn gwaith trefnu gan y Cyngor Cymuned diolchodd y cynghorwyr i Rob Griffiths am ei holl waith caled ar lwybrau troed yr ardal.

Dyddiad cyfarfod nesaf Cyngor Cymuned Llangynfelyn – Nos Lun 8 Ionawr 2024

# Cletwr

Blwyddyn Newydd Dda i chi oll. 2024 eisoes. Ffaelu credu. Os cofiaf yn iawn, yn ôl fy hen gylchgrawn TV21 ’nôl yn y 60au, erbyn hyn byddai pawb yn gwisgo dillad plastig, bwyta tabledi a chael ceir sy’n hedfan.



Diolch byth, mae bwyd traddodiadol yn dal ar y fwydlen ac mae llawer o hynny ar gael yn Cletwr. (Sachau tatws lleol ’nôl mewn stoc!)

Bu adeg y Nadolig a’r Calan yn brysur iawn fel arfer. Diolch i’n cwsmeriaid i gyd, a’r staff a gwirfoddolwyr am eu gwaith caled a selog. Gobeithio y bydd amser i ni anadlu dros wythnosau tawel y Gaeaf. Diolch arbennig i ymwelydd arbennig hefyd - Siôn Corn ei hun. Roedd llawer o blantos yn hapus iawn i’w weld.

Yn anffodus, ni fydd llawer o ddigwyddiadau yn y dyddiadur am y tro. Mae cyfarfodydd arferol fel Clonc a Gwau, Dal Ati ayyb yn parhau ond os ydych chi am ddefnyddio Cletwr ar gyfer unrhyw ddigwyddiad gyda’r nos, cysylltwch â’r swyddfa.

Ydych chi’n meddwl am addunedau Blwyddyn Newydd? Beth am wirfoddoli yn Cletwr? Mae llawer o jobsys amrywiol i’w gwneud a’r oriau i’ch siwtio chi. Mae’n llawer o hwyl.

Mae’r caffi ar agor fel arfer - y lle perffaith am baned o siocled poeth a chacen ar ôl mynd am dro yn yr oerni. 9.30-4.30 (4.00 dydd Sul) bob diwrnod, ond dim bwyd cynnes dydd Llun Mawrth. Ond, rydyn ni yn nhymor y peswch a’r tisian ( a’r Gofid Mawr eto?), felly efallai bydd angen newid yr oriau neu'r fwydlen ar fyr rybudd os bydd staff yn sâl. Cadwch lygaid ar ein tudalen Facebook.

A gair arall i’ch atgoffa. Gyda phrisiau popeth yn codi bob dydd, cofiwch ein bod ni’n cynnig gwasanaeth prynu mewn swmp (bulk buying). Cewch archebu bocs o unrhyw beth (yn enwedig deunydd Suma a Bookers) am ostyngiad sylweddol. Gofynnwch yn y swyddfa.

Ac yn olaf, llongyfarchiadau mawr i Ciara a Tecwyn, sy’n gweithio ill dau yn Cletwr, ar enedigaeth eu merch newydd ar fore dydd Nadolig. Yn Aberystwyth dref y’i ganwyd. (Hmm, rwyf yn teimlo cân plygain yn dod ...)

## Arddangosfa

Cynhelir arddangosfa o beintiadau cywrain David Ware, Tre’r-ddôl, yn MOMA, Machynlleth ar hyn o bryd. Mae David bellach yn 92 mlwydd oed ond mae’n dal i beintio yn ei weithdy ger afon Cletwr. Golygfeydd lleol yw testun llawer o’i luniau lliwgar. Y mae’r arddangosfa ar agor hyd at 27 Ionawr.

# CFfI Tal-y-bont

## DIOLCH, a gwahoddiad i barti!

Mawr yw ein diolch i bawb a fu mor hael yn cefnogi ein hymdrechion ddiwedd 2023 i hel arian at achosion da, wrth i ni ganu carolau ar hyd y lle. Mae eich cefnogaeth bob tro yn golygu llawer i ni fel clwb, a braf yw gallu datgan ein bod wedi llwyddo i godi £1,500 ym mis Rhagfyr, i’w rannu rhwng Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais, a Sefydliad DPJ Foundation. Mae’r ddwy elusen yn gwneud cymaint dros ein cymuned ni, felly mae’n braf medru rhoi rhywbeth yn ôl iddyn nhw. Byddwn ni’n rhoi’r arian iddyn nhw yn nes ymlaen eleni.

Tra’n bod ni’n ffarwelio â 2023, mae ganddon ni rywbeth cyffrous i edrych ymlaen ato ar ddechrau 2024! Mae CFfI Talybont yn 70 oed eleni, felly wrth reswm, rhaid trefnu dathliad! Mae hyn yn dipyn o garreg filltir, ac ar nos Sadwrn 24 Chwefror bydd Cinio Clwb yn digwydd yng Ngwesty’r Marine, Aberystwyth. Bydd bwyd poeth, adloniant a digon o bethau eraill i brocio’r cof o’n llwyddiannau a’n cyfeillgarwch dros y blynyddoedd diwethaf. Gallwch brynu tocyn oddi wrth unrhyw un o arweinwyr y Clwb (Mair Nutting, Huw Llety Ifan Hen, Lowri Jones, Sera Llywelyn, Sara Gibson, Ynyr Siencyn, Siôn Pennant, Rhian Glanrafon) neu drwy gysylltu gyda ni drwy ein tudalen Facebook - Cyfeillion CFfI Talybont. Dewch yn eich niferoedd i ddathlu! Bydd mwy o fanylion yn Papur Pawb mis Chwefror.

*Sara Gibson*

# Bore Coffi Llanfach



Cynhaliwyd ein bore coffi misol yn neuadd Llanfach ar fore Mercher, 20 Rhagfyr a’r tro yma, yn ogystal â’r te/coffi arferol, mwynhawyd gwin cynnes a danteithion Nadoligaidd. Mae’r bore coffi yn fodd i’r gymuned ddod ynghyd i fwynhau paned a chlonc unwaith y mis, a chynhelir y nesaf ar fore Mercher, 17 Ionawr – croeso cynnes i bawb.

## Clwb Cant Neuadd Llanfach

**Enillwyr mis Rhagfyr**:
1. Rhif 81 Heather Jones
2. Rhif 69 Val Deaville
3. Rhif 79 Michelle James

**Enillwyr mis Ionawr**:
1. Rhif 68 David South
2. Rhif 53 Bertie Jones
3. Rhif 39 Karen Stacey






pp Ionawr 24.qxp_Layout 1 08/01/2024 5:08 pm Page 12

# Chwaraeon a Hamdden

## Hanner canmlwyddiant






Y tro hwn rydym yn dathlu hanner canmlwyddiant Clwb Pêl-droed Tal-y-bont drwy gynnwys llun a dynnwyd yn ystod yr 1980au.

Yn y cyfnod hwnnw (ac ers hynny) dechreuodd y clybiau pêl-droed dderbyn nawdd i brynu crysau a oedd yn arddangos enw'r noddwyr. Yn Nhal-y-bont, derbyniwyd nawdd dros y blynyddoedd gan sawl busnes lleol gan gynnwys y Llew Du a'r Llew Gwyn ond ar yr achlysur hwn noddwyd y tîm gan Y Lolfa a dyma berchennog y cwmni, Robat Gruffydd, yn cyflwyno'r crysau deniadol newydd.

## Clwb Ieuenctid Tal-y-bont

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall i Glwb Ieuenctid Tal-y-bont. Rydym wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn sawl grant i gefnogi gweithgareddau a chostau rhedeg y clwb yn 2023.

Diolch i Barclays Sported, CWVYS a Chlybiau Bechgyn a Merched Cymru. Diolch hefyd i Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr am gyfraniad tuag at redeg y clwb. Mae'r gefnogaeth hyn wedi galluogi'r aelodau i gael blas o weithgareddau megis pêl-droed gyda BMO Coaching, paentio crochenwaith gan Crackpots Pottery, swper yn y Llew Gwyn ar ôl taith gerdded o amgylch y pentref i orffen tymor yr haf, a thaith Nadolig i'r sinema ar ddiwedd 2023.

Yn y flwyddyn newydd, edrychwn ymlaen at barhau i gwrdd yn wythnosol i fwynhau gweithgareddau chwaraeon, celf a chrefft, coginio a mwy. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli, gwneud cyfraniad neu eisiau cefnogi'r clwb mewn unrhyw ffordd, mae croeso i chi gysylltu â Lowri ar 07730667126, neu danfonwch neges i dudalen Facebook y Clwb sef, Clwb Ieuenctid Tal-y-bont Youth Club.



*Taith gerdded ddechrau haf 2023*

